**Atodiad A: tabl o reoliadau lle dewiswyd opsiynau a'r rhesymau pam**

| Mesur deddfwriaethol | Y trefniadau presennol yng Nghymru (o dan Reoliad 504/2008 a Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2009) | Dull arfaethedig a'r rhesymeg y mae'n seiliedig arno |
|---|---|---|
| Mae Rheoliad 2015/262 yn caniatáu i Aelod-wladwriaethau ei gwneud yn ofynnol bod yn rhaid i berchennog ceffyl fod yn gyfrifol am adnabod ceffyl (Erthygl 3(3)). | Dim ond perchennog gaiff wneud cais am ddogfen adnabod (Rheoliad 5(3). | Rydym yn bwriadu cadw'r sefyllfa bresennol lle mae'r perchennog yn gyfrifol am wneud cais am basbort i geffyl a'i dderbyn.<br><br>Rydym o'r farn bod y trefniadau hyn yn gweithio'n dda ac y byddai unrhyw newid yn cyflwyno costau newydd neu bontio i fusnesau. |
| Mae Rheoliad 2015/262 yn rhoi'r gallu i Aelod-wladwriaethau bennu mwy o gyfyngiadau ar fformat pasbort. | Mae'n rhaid i Gyrff Cyhoeddi Pasbortau sicrhau bod fformat eu pasbortau yn cydymffurfio â'r ddogfen enghreifftiol a nodir yn Rheoliad 2015/262. | Nid ydym yn bwriadu pennu mwy o gyfyngiadau ar fformat y pasbort na'r rheini sy'n bodoli eisoes, ond rydym yn cadw'r hawl i wneud hynny yn y dyfodol os bydd yr angen yn codi. Mae'n rhaid i'r Cyrff Cyhoeddi Pasbortau sicrhau bod fformat eu pasbortau yn cydymffurfio â'r ddogfen enghreifftiol a nodir yn Rheoliad 2015/262. |
| Mae Rheoliad 2015/262 yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau bennu'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno'r cais am basbort. | | Mae Rheoliad 2015/262 yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau nodi dyddiad y mae'n rhaid i Gorff Cyhoeddi Pasbortau dderbyn ffurflen gais am basbort yn ei erbyn. Ystyrir bod un mis calendr yn derfyn amser priodol i'w bennu. Dylai pob math o Gorff Cyhoeddi Pasbortau allu bodloni'r terfyn amser gan y gallai fod gan Gyrff Cyhoeddi Pasbortau o wahanol feintiau wahanol amseroedd prosesu. Mae safbwyntiau'n cael eu ceisio ar y pwynt hwn. |
| Mae Rheoliad 2015/262 yn caniatáu i Aelod-wladwriaethau ddefnyddio cardiau clyfar yn hytrach na phasbortau fel dull | Ceir defnyddio cardiau clyfar ar gyfer symud neu wrth gludo ceffyl yn hytrach na phasbortau. | Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwneud defnydd o'r dirymiad sy'n caniatáu i geffylau deithio gyda cherdyn clyfar.<br><br>Gallai cardiau clyfar gynnig mwy o hyblygrwydd i berchnogion ceffylau. Mae Llywodraeth Cymru yn barod i ystyried y defnydd o gardiau clyfar os bydd |

**Atodiad A: tabl o reoliadau lle dewiswyd opsiynau a'r rhesymau pam**

| | | |
|---|---|---|
| adnabod pan fydd ceffyl yn teithio / symud yn hytrach na chario ei basbort ceffylau. | | darparwr priodol yn dod yn ei flaen rywbryd yn y dyfodol.<br><br>Mae cyswllt â rhanddeiliaid wedi nodi, mewn gwirionedd, ei fod yn opsiwn sy'n annhebygol o gael ei ddilyn er y byddai'r Rheoliadau yn darparu ar ei gyfer. |
| Mae Rheoliad 2015/262 yn rhoi'r gallu i Aelod-wladwriaethau roi microsglodion mewn gwahanol le mewn lleiafrif o geffylau. | Caiff microsglodion eu rhoi rhwng y gwegil a'r ysgwydd yng nghanol y gwddf yn ardal gewyn gwegilog y ceffyl. | Byddwn yn parhau gyda'r drefn bresennol o fewnblannu microsglodyn rhwng y gwegil a'r ysgwydd yng nghanol y gwddf yn ardal y gewyn gwegilog. Ni fwriedir caniatáu i'r mewnblaniad gael ei wneud mewn man arall.<br><br>Rydym o'r farn bod safoni'r arfer hwn yn arbed amser a chost i bob busnes darllen microsglodion a milfeddyg. |
| Mae Rheoliad 2015/262 yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau bennu rheolau i sicrhau bod rhifau microsglodion yn unigryw. | Milfeddygon sy'n gyfrifol am osod microsglodyn â rhif unigryw. | Byddwn yn parhau gyda'r drefn bresennol sy'n ei gwneud yn ofynnol i filfeddygon osod microsglodion sy'n cydymffurfio ag ISO sydd wedi eu rhifo'n unigryw.<br><br>Rydym o'r farn bod opsiynau eraill ar gyfer sicrhau unigrywiaeth rhifau microsglodion yn fwy beichus ar fusnesau a llywodraeth a gallai olygu bod angen buddsoddiad ychwanegol mewn systemau cymhleth. |
| Mae Rheoliad 2015/262 yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau bennu rheolau yn ymwneud â'r cymhwyster gofynnol ar gyfer gosod microsglodyn. | Aelodaeth o Goleg Brenhinol y Milfeddygon yw'r cymhwyster gofynnol | Byddwn yn parhau gyda'r drefn bresennol mai'r cymhwyster sy'n ofynnol i osod microsglodyn unigryw o dan y rheoliadau hyn fydd aelodaeth o Goleg Brenhinol y Milfeddygon. |
| Mae Rheoliad 2015/262 yn caniatáu i Aelod-wladwriaethau arfer dirymiad i beidio â chwblhau silwét yn amodol ar bresenoldeb microsglodyn a ffotograff | | Nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu arfer y dirymiad hwn. Ceir cefnogaeth eang i'r silwét fel rhywbeth sy'n angenrheidiol mewn pasbort ceffyl. Ni ystyrir fod ffotograffau a gyflenwyd fel ebol ar adeg cyflwyno'r pasbort yn cynrychioli'r ceffyl yn ddiweddarach mewn bywyd (e.e. gall ceffylau newid lliw gydag oed). |

**Atodiad A: tabl o reoliadau lle dewiswyd opsiynau a'r rhesymau pam**

| | | |
|---|---|---|
| o'r anifail. | | |
| Mae Rheoliad 2015/262 yn caniatáu i geidwaid wneud cais am basbortau i gorff cyhoeddi sydd â'i bencadlys mewn Aelod-wladwriaeth arall | Parhau i ganiatáu'r gweithgaredd hwn | Bydd hyn yn cael ei ganiatáu yn unol â'r sefyllfa bresennol. |
| Mae Rheoliad 2015/262 yn caniatáu dulliau amgen o ddilysu manylion adnabod. Ni ddylid defnyddio dulliau o'r fath (e.e. marcio ceffylau) fel yr unig ffordd o ddilysu manylion adnabod. | Cydnabyddir microsglodion fel y brif ffordd o ddilysu manylion adnabod. | Mae'r Llywodraeth Cymru o'r farn mai microsglodion yw'r brif elfen ar gyfer dilysu manylion adnabod. |
| Mae Rheoliad 2015/262 yn caniatáu symud a chludo ceffylau iau na blwydd oed o'u daliadau geni i'w lladd cyn belled ag y gellir olrhain yn ddi-dor o'r daliad geni, bod yr equidae yn cael eu marcio'n unigol wrth eu cludo a bod gwybodaeth Cadwyn Fwyd yn mynd gyda nhw. | Dim trefniant ar waith. | Nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu arfer y dirymiad hwn. Er bod ebolion lled-fferal wedi gallu symud yn syth i'r lladd-dy o dan amodau llym, nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn bosibl sicrhau'r un meini prawf llym ar gyfer ceffylau hyd at flwydd oed sy'n cael eu symud o ddaliadau geni eraill. |

## Atodiad A: tabl o reoliadau lle dewiswyd opsiynau a'r rhesymau pam